

Pris: 50c

Papur Pawb

Rhagfyr 2018

Rhif 444



tud 4	tud 9	tud 12	tud 12
Ffair y Neuadd	Eisteddfod	Y Gair Olaf	Chwaraeon

Croeso cynnes i Gaffi Gruff



Braf yw croesawu menter newydd yng nghanol pentref Tal-y-bont. Mae’r beiciwr proffesiynol, Gruffudd Lewis, wedi agor caffi yn ei gartref yn hen gapel y Tabernacl. Agorwyd y caffi’n swyddogol yn ystod ail wythnos mis Tachwedd, ac ers hynny mae llawer o drigolion y fro wedi taro i mewn. Galwodd gohebydd *Papur Pawb* draw am baned a sgwrs.

Mae rhedeg caffi ar thema seiclo wastad wedi bod yn freuddwyd gan Gruff, ac mae’n teimlo’n ffodus iddo gael cymorth y teulu i droi rhan o’r Tabernacl yn gaffi croesawgar. Ac yntau’n seiclwr proffesiynol sy’n gobeithio gwneud mwy o waith hyfforddi yn y dyfodol, roedd rhedeg caffi y tu allan i’r tymor seiclo swyddogol fel math o hobi yn apelio’n fawr ato. Pan fydd y tymor seiclo’n aildechrau ym mis Mawrth, efallai y bydd yn chwilio am staff i’w helpu.

NADOLIG LLAWEN

i'n holl ddarllenwyr

Yn ogystal â gweini te a choffi, mae detholiad o gacennau a wneir yn lleol ar gael, yn ogystal â bara brith arbennig Doreen, modryb Gruff: “Rydym ni fel teulu wastad wedi mwynhau bara brith Anti Doreen, chwaer Dad, ac rwy’n ddiolchgar iawn iddi am gytuno i wneud bara brith ar gyfer y caffi. Mae’n ddewis poblogaidd iawn.”



Mae’r caffi ar agor o 8.00 o’r gloch y bore tan 2.30 y pwnn yn ystod yr wythnos, ac ar y penwythnos rhwng 9.00 ac 1.00 o’r gloch. Y gobaith yw y bydd aelodau’r Clwb Seiclo Lleol yn galw heibio’n rheolaidd ar eu teithiau drwy’r pentref ar ddydd Sul. Gan fod modd cael uwd a thost yn y bore, does dim syndod clywed fod ambell aelod o staff yr ysgol ac ambell adeiladwr wedi taro i mewn i gael brecwast cyn gwaith.

Er nad yw Gruff wedi ystyried gwneud hynny eto, a chan nad oes siop yn y pentref bellach, nid yw’n amhosib y gwelwn y bydd y caffi’n dechrau gwerthu papurau newydd yn y dyfodol, os bydd digon o alw. “Rwy’n fodlon gwrando ar lais y trigolion”, meddai “er mwyn gweld beth mae nhw eisie.”

Pob dymuniad da i’r fenter newydd, a gobeithio y bydd ein darllenwyr yn galw heibio am baned a chacen a thafell o fara brith Anti Doreen.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Cysyllter â golygyddion y mis

Tynnu lluniau:

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys:
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
(01654) 703635
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd:
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezzer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Y Ffair Aeaf



Marion Evans yn derbyn ei gwobr gan Tom Tudor. Y llun trwy garedigrwydd Glyn Evans, *photoimage photography*.

Llongyfarchiadau i deulu Tŷ Nant, Bont-goch, ar eu llwyddiant yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Enillodd Marion sawl gwobr yn yr adran ddofednod am gyw iâr, twrci a hwyaden wedi eu trin. Cipiodd wobwr risial y Gymdeithas Amaethyddol fel dangoswr gorau'r adran, ac enillodd Eifiona wobwr yn adran y moch. Llongyfarchiadau hefyd i Beti Wyn, Taliesin, am ei llwyddiant yn adran y blodau.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i fy ffrindiau a holl ddarllenwyr *Papur Pawb* oddi wrth Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont.

Mae Eleri a Gwilym, Meisgyn, yn dymuno **Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda** i'w holl ffrindiau yn ardal Papur Pawb. Pob dymuniad da!

Dyddiadur

RHAGFYR

15 Cletwr 11–12 Dal Ati
16 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 10 John Hughes
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gwasanaeth Carolau
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 4.30
Gwasanaeth Carolau, a mins peis i ddilyn yng Nghastell Glandyfi
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrrol Weddi
Cletwr 3–4.30 ‘Dysgu sut i lapio’ gyda Kate
19 Gyrfa Chwist Dofednod Neuadd Goffa Tal-y-bont 8.00
20 Tai Chi 2–3.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach **Bingo** 7.30 Wildfowler **Carolau yn y Cletwr** 7–9
23 Bethel 10 Wyn Morris **Nasareth** 5 Oedfa Garolau yn y Garn
Rehoboth 10 Gwasanaeth; 5 Oedfa Garolau yn y Garn
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth Boreol
24 Bethel 5.30 Gwasanaeth Noswyl Nadolig yr Ysgol Sul
Siôn Corn yn y Cletwr 11–1
25 Bethel 10.30 Gwasanaeth Bore Nadolig
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Pedr, Elerch 8yb Cymun Bendigaid
28 Cwis 8 Wildfowler
30 Bethel 10 Kevin Davies
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

IONAWR

3 Cletwr 3–5 ‘Celfyddydau a Chrefftau’r Arctic’ gyda Jules **Bingo** 7.30 Wildfowler
6 Bethel 11.15 Uno yn Nasareth **Nasareth** 11.15 Bugail **Rehoboth**
8 Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth ‘Byd y Fet’ (Phil Thomas)
9 Sefydliad y Merched Taliesin ‘Curling’
11 Cwis 8 Wildfowler
Noson gymdeithasol yng nghwmni Liz Saville Roberts, arweinydd Plaid Cymru yn San Steffan 7.30 Tafarn y Blac, Bow Street. Lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i bawb
23 Pwyllogor Apêl Eisteddfod 2020 yng ngwaelod Neuadd Goffa Tal-y-bont, 7.00

Cletwr
Bob dydd Mawrth ‘Clonc a Gweu’ 3–5
Bob dydd Sul ‘Rhedeg Cymdeithasol’ 9.30–10.30

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfôn y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com (01970 832478) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.



Cymdeithas Sioe Tal-y-Bont
Gyrfa Chwist Dofednod
gyda Raffl Fawr a gwobrau amrywiol
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Fercher 19 Rhagfyr
8 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

PLYGAIN MORLAN
7.30, Nos Fercher, 19 Rhagfyr 2018
Canolfan Morlan
Morfa Mawr, Aberystwyth
(01970-617996; post@morlan.cymru)
Croeso cynnes iawn i bawb

GOLYGYDDION
Golygyddion y rhifyn hwn oedd Bleddyn a Delyth, gyda Iolo yn dylunio. Diolch iddynt.
Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Fal a Gwyn (golygydd@gmail.com). Y dyddiad cau yw 4 Ionawr a bydd y papur ar werth ar 11 Ionawr.

Mam-gu a Thad-cu
Llongyfarchiadau i Jill a John Roberts y Felin Lifio, Tal-y-bont, am ddod yn fam-gu a thad-cu balch i'r Cymro bach newydd a anwyd yn pwysu 8 pwys a 7 owns, Brennig Rhys, mab newyddanedig Gareth a Lowri Roberts sy'n byw yn Llandaf.

Dymuniadau gorau
Newydd da oedd clywed fod Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont, wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod byr yn Ysbyty Bron-glais. Ein dymuniadau gorau iddo gan obeithio y daw'n holliach yn fuan.

Dymuniadau gorau hefyd i Tom Cosson, Llannerch, Tal-y-bont gynt ond sydd bellach wedi symud i Ddôl Pistyll, a dderbyniodd driniaeth yn ddiweddar.

Ein dymuniadau gorau hefyd i Anthony Southgate, Dan-y-dderwen, Tal-y-bont a dreuliodd gyfnod byr yn yr ysbyty. Da clywed ei fod wedi gwella.

Beti a'i Phobl
Yn ystod y mis, clywyd Karen Elli, merch yng nghyfraith Glyn a Gill Saunders Jones, Y Fagwyr, Tal-y-bont, yn trafod ei gyrfa ar raglen Beti a'i Phobl ar BBC Radio Cymru. Mae Karen yn wraig i Owain, ac yn fam i Elli a Gruff. Ar ôl cyfnod byr yn actio ar Bobl y Cwm, mae bellach yn rhedeg busnes fel hyfforddwr ffitrwydd.

Tlws Seiclo
Llongyfarchiadau i Gruffudd Lewis, y Tabernacl, Tal-y-bont, am ennill tlws dringo'r allt yng nghyfarfod gwobrwyo Clwb Seiclo Ystwyth yn ddiweddar. Anita Saycell, Dôl Pistyll, a enillodd y tlws i ferched yng nghynghrair Treial Amser 2018.

Cwrs Darlunio Llyfrau Plant
Llongyfarchiadau i Ruth Jên am gael ei dewis ymhlith 16 o bobl a enillodd le ar gwrs ysgrifennu a darlunio llyfrau i blant a arweinir gan y darlunydd enwog Jac Jones a'r awdures Manon Steffan Ros. Cyngor Llyfrau Cymru a Llenyddiaeth Cymru sy'n gyfrifol am noddi'r cwrs, a'r gobaith yw meithrin talentau cynhenid ar gyfer y diwydiant llyfrau yng Nghymru.

Pobl a Phethe

Noson lwyddiannus yn codi arian i Glwb Ieuenctid Tal-y-bont



Gareth y Llew Gwyn yng nghwmni Kath Mcandrew (chwith) a Siân Evans (dde), dwy o wirfoddolwyr y Clwb.

Cynhaliwyd noson bingo yn y Llew Gwyn yn ddiweddar i godi arian tuag at Glwb Ieuenctid Tal-y-bont. Diolch yn fawr i Gareth, Bev a'r tîm am drefnu a chynnal y digwyddiad. Codwyd swm sylweddol o arian tuag at i'r Clwb a fydd yn cael ei ddefnyddio i fynd ar daith Nadolig. Diolch hefyd i'r Llew Gwyn am eu rhodd garedig o siocledi Nadolig i'r bobl ifanc. Mae'r Clwb Ieuenctid yn parhau i gwrdd yn wythnosol yn y Neuadd Goffa rhwng 6.30 ac 8.30yh bob nos Wener, ac mae croeso cynnes i bobl ifanc 10-16 oed.

Teithio'n bell i wasanaeth



Arthur Morris a'i nai Gavin yng ngwmni Mrs Elisabeth James, Cwmudw, Tal-y-bont.

Fe ddaeth Mr Arthur Morris a'i nai Gavin Morris yr holl ffordd o Gaer-grawnt er mwyn bod yn bresennol yng ngwasanaeth Sul y Cofio yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, ac i glywed enw ei ewythr Arthur Morris, gynt o Elerch House, Bont-goch yn cael ei ddarllen ymhlith enwau y bechgyn lleol a gollwyd yn y Rhyfel Mawr. Bu farw dau o frodyr eraill Arthur yn nhrychineb glofa Senghennydd yn 1911. Mae Arthur, sy'n ymweld yn rheolaidd â'r ardal yn fab i frawd iau Arthur, sef Llewellyn Morris, ac fe'i henwyd ar ôl ei ewythr.

Pen-blwydd arbennig
Llongyfarchiadau i Maureen Jenkins, Aberceulan, Tal-y-bont, a Marion Evans, Tŷ nant, Bont-goch ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Croeso
Croeso cynnes i'r teulu newydd sydd wedi ymsefydlu yn Sŵn-y-gog, Bont-goch.

Llwyddiant
Braf iawn clywed fod un o fechgyn ifanc yr ardal, sef, Richard John Jenkins, Ynysgreigiog, wedi bod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd eleni. Bu'n ffodus o ennill rhodd ariannol gan y diweddar Gareth Raw Rees, Tynparc, Llandre, trwy NFU Cymru. Golyga hyn ei fod yn cael cyfle i dreulio tri mis yn gweithio ar wahanol ffermydd yn Seland Newydd. Mae ar hyn o bryd yng ngogledd y wlad ac yn gweithio ar fferm sydd â thros chwech chant o wartheg o wahanol fridiau. Bydd hefyd yn ymweld ag Ynys y De. Gan mai prif ddiddordeb Richard John yw gwartheg, bydd yn siŵr o ddod â syniadau cyffrous yn ôl i Ynysgreigiog! Llongyfarchiadau mawr i Richard ar ei llwyddiant a dymuniadau gorau ar hyd y daith.

Prosiect Cyffrous i hen Ysgol Llangynfelyn!
Croeso cynnes iawn i Ian Williams a'i bartner Pippa Wells sydd wedi symud i fyw i hen adeilad Ysgol Llangynfelyn o'r Borth. Mae Ian (sydd o Dal-y-bont yn wreiddiol) a Pippa yn bwriadu byw yn rhan o'r hen ysgol a hefyd sefydlu siop hen bethau ac iard achub yno. Pobl glên a brwdfrydig iawn yw Ian a Pippa ac rydyn ni'n dymuno pob lwc iddyn nhw yn y fenter.

Symud tŷ
Pob lwc i Brian a Beti Wyn Davies sydd wedi symud o Rhos yn Nhre Taliesin i Rydyfelin ger Aberystwyth. Mae Brian a Beti Wyn wedi byw yn y pentre ers amser maith a byddwn ni'n gweld eu heisiau'n fawr, gan obeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

Hwyl dda yn Ffair y Neuadd

Daeth tyrfa dda i gefnogi Ffair Nadolig Neuadd Goffa Tal-y-bont ar Sadwrn olaf mis Tachwedd. Yn ogystal â stondinau arferol y mudiadau, yr oedd rhai stondinau amrywiol a gwahanol i'r arfer eleni, yn cynnwys stondin Glesni Haf o Grefftau'r Bwthyn, Llanfihangel y Creuddyn, stondin grefftau Ani-bendod sy'n eiddo i Anwen Jenkins, Tyngraig, stondin Ruth Jên a'i chwiorydd, a llyfrau'r Lolfa. Cafodd pobl gyfle i brynu cardiau ac addurniadau Nadolig ac ambell anrheg.

Llwyddwyd i godi yn agos i £1,100 tuag at gostau cynnal y Neuadd. Diolchodd Dei Nutting, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd, i'r bobl a fu wrthi'n ddiwyd yn paratoi ymlaen llaw, ac i bawb a ddaeth i gefnogi ac i gymdeithasu ar y diwrnod.



Margaret Jones, Nantgaredig, Tal-y-bont, a enillodd hamper cadeirydd y Neuadd.



Stondin y Sioe a'r Treialon Cŵn Defaid dan ei sang gyda'r cynnyrch.



Y bechgyn yn cael blas ar y cacennau.



Geoff Davies wedi prynu cardiau Nadolig oddi ar stondin Ani-bendod.



Rhai o aelodau'r Clwb Ieuentid yn gwerthu raffl.



Stondin Glesni Haf.

Clwb CFFI Tal-y-bont

Cynhaliwyd noson o bigion Eisteddfod CFFI Ceredigion yn Neuadd Tal-y-bont ar nos Fawrth y 13eg o Dachwedd. Cyflwynwyd gwledd o eitemau amrywiol gan aelodau'r Clwb, a diolch i bawb a ddaeth i fwynhau a chefnogi.

Llongyfarchiadau i Beca, Cadi, Elain a Cari am berfformio mor raenus yn Eisteddfod CFFI Cymru a gynhaliwyd yn Y Barri, a llongyfarchiadau mawr i Sara ar ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth y frawddeg. Diolch hefyd i'r aelodau a fu'n cynrychioli'r Clwb yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd.

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Rhiannon Ifans a Trefor Pugh yn trafod traddodiad y canu plygain a oedd i fod yng nghyfarfod y gymdeithas ddiwedd Tachwedd, ond oherwydd salwch bu'n rhaid ad-drefnu. Yr arbenigwr ar hanes y gyfraith, Dr Richard Ireland, gynt o Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth, oedd y siaradwr gwadd, a'i bwnc oedd trosedd a chosb yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafwyd sgwrs hynod addysgiadol ganddo yn trafod y gwahanol ffyrdd o gosbi troseddwyd. Lle gynt y câi drwgweithredwyr euog eu chwipio'n gyhoeddus neu eu cloi mewn cyffion, dechreuwyd eu halltudio drwy eu trawsgludo i'r trefedigaethau Prydeinig yng Ngogledd America ac yn Awstralia mewn hen longau rhyfel.



Dr Richard Ireland

Pan ddiweddwyd trawsgludo fel ffordd o gosbi ar ôl 1856, dechreuwyd cloi lladron a throseddwyd mewn carchardai, ac adroddwyd hanes ambell droseddwr a garcharwyd yng ngharchar Caerfyrddin, gan gynnwys Dai'r Cantwr a oedd yn un o arweinwyr Terfysgoedd Beca.

Erbyn 1858, dechreuwyd tynnu lluniau o droseddwyd a charcharorion gan yr heddlu. Clywyd mai'r llun a dynnwyd yng ngharchar Caerfyrddin o James Jones a ddedfrydwyd i'w grogi oedd y *mugshot* cyntaf a dynnwyd yng ngwledydd Prydain. Byddai lluniau o'r fath yn cael eu hanfon o'r naill sir i'r llall er mwyn i'r heddlu fod ar eu gwyliadwriaeth pan oedd carcharor wedi'i ryddhau neu ar ffo.

Roedd sgwrs Dr Ireland yn hynod ddiddorol am ei bod yn gosod y datblygiadau mewn cosbi pobl mewn cyd-destun cymdeithasol ar adeg pan oedd y canolfannau trefol yn rhoi cyfle i droseddwyd allu cuddio heb gael eu dal.

Gobeithir medru trefnu noson ar ganu plygain ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2018 – dros £19,250 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: cronfaeleri.cymru

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 15fed 2019

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

Ben Lake & Elin Jones



Gyda'r nosweithiau'n byrhau, y sgarffiau a'r cotiau trymion yn cael eu gwisgo'n fwyfwy aml, a'r gwahoddiadau lu i gyngherddau a dathliadau Nadolig ar draws Ceredigion yn cyrraedd yn y post, mae'n bryd i ni edrych yn ôl ar y flwyddyn aeth heibio, cyn troi ein golygon at 2019.

Does dim dwywaith bod 2018 wedi bod yn flwyddyn heriol i nifer yng Ngheredigion. Mae sgil-effaith storm Callum yn dal i'w gweld mewn nifer o gartrefi a busnesau a gafodd eu difrodi gan y llifogydd. Rydym wedi cwrdd â nifer fawr o etholwyr sydd wedi eu heffeithio, ac yn gobeithio y bydd bywyd yn dychwelyd i'r arfer cyn y Nadolig.

Dros y flwyddyn a fu, cwrddom ni'n dau ag arweinwyr y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn rheolaidd i drafod straen parhaol cyllidebau tynn, a thoriadau di-ben-draw Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae hyn wedi achosi ailasesu gwariant mewn nifer o feysydd a gwasanaethau beunyddiol, ac mae gallu Awdurdodau Lleol yn arbennig i gyllido nifer o'u gwasanaethau craidd ar draws Ceredigion wedi'i ymestyn i'r eithaf.

Yn ystod dathliadau 70 blwydd oed y Gwasanaeth Iechyd, bu llawer o siarad ynglŷn â dyfodol gwasanaethau yn ardal Hywel Dda, ac fe fuom ni'n croesawu newyddion da ynglŷn ag Ysbyty Bron-glais. Cawsom ymrwymiad clir gan y Bwrdd Iechyd a'r Llywodraeth i bwysigrwydd strategol yr ysbyty yn ystod yr ymgynghoriad, ac yn y misoedd diwethaf, gwelsom ymrwymiad hir-aros tuag at ariannu sganiwr MRI newydd gwerth £5 miliwn. Bydd y sganiwr yn fantais enfawr i'r ysbyty o ran sicrhau'r driniaeth orau i gleifion ond hefyd o ran denu staff.

Clywsom hefyd am gynlluniau i agor canolfannau iechyd newydd ledled y sir, a chlywsom fod y broses o recriwtio doctoriaid newydd i'r ysbyty yn dechrau dwyn ffrwyth. Serch hynny, mae recriwtio meddygon teulu yn parhau i fod yn her. Roedd hi'n siom aruthrol clywed y bydd meddygfeydd Teifi yn Llandysul ac Ashleigh yn Aberteifi yn cau eu drysau yn 2019. Mewn ymateb, bu i ni'n dau gynnal cyfarfod brys gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda er mwyn rhannu pryderon etholwyr ac i sicrhau bod ganddynt drefniadau tymor byr a thymor hir yn eu lle fyddai'n diogelu iechyd a lles holl gleifion Dyffryn Teifi.

Mae *Brexit* yn fater sy'n parhau i hawlio sylw seneddau San Steffan a Chaerdydd, ac fe fydd sawl pleidlais a dadl arwyddocaol cyn y Nadolig. Rydym ni'n dau wedi galw am bleidlais i'r bobl i ddatrys y sefyllfa hon. Yr hyn sy'n arwain ein barn yw effaith negyddol gadael yr Undeb Ewropeaidd ar economi a thrigolion Ceredigion. Fe fydd ein gwaith yn parhau yn ystod y flwyddyn newydd.

Gan ddymuno Nadolig dedwydd iawn a Blwyddyn Newydd Dda ac iach i bob un ohonoch.

Ben ac Elin

Eglwys-fach

Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel, ar Sul y Cofio, yng ngofal y Ficer David Williams, sydd erbyn hyn wedi ymddeol, ac yn byw yng Ngholeg Sant Barnabas, Lichfield, Surrey. Rhoddwyd torch o babi coch wrth y fynedfa hynafol gan Alison Swanson, ar ran yr Eglwys, Cyngor Bro, a Sefydliad y Merched. I ddilyn cafwyd gwasanaeth gan y Ficer yn yr Eglwys, ac enwyd y bechgyn o'r ardal a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd.



Adolygiad o Pwy Bia'r Gân? – Academi Gerdd y Lli

Caoimhe Melangell yn chwarae un o'r prif rannau yng nghwmni gweddill y cast.

Nos Wener y 30ain o Dachwedd cafwyd gwledd o adloniant wrth i Academi Gerdd y Lli gyflwyno sioe gerdd Robot Arwyn 'Pwy Bia'r Gân?'. Roedd y perfformiad – a gynhaliwyd yng nghanrwydd hen theatr y Coliseum yn Amgueddfa Aberystwyth – yn binacl tymor arall o waith gan yr Academi sy'n rhoi cyfle i hyd at hanner cant o blant yr ardal, rhwng 5 ac 11 oed, berfformio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafwyd perfformiadau unigol o safon uchel gan Gwen Gibson a Lili Fox fel cyflwynwyr brwdfrydig y rhaglen deledu realaeth 'Pwy Bia'r Gân?' oedd yn gysail i'r stori, a gan y 'beirniaid', Erin Trysor (Elin Fflur), Ellena Wiles (Sian Cothi) a Lois Cleary o Bont-goch (Cerys Matthews). Caoimhe Melangell, hefyd o Bont-goch, ac Owen Jac Roberts oedd yn portreadu'r prif gymeriadau Gwenno

a Bobi, a chafwyd portread gwych o'r bwli Jêms gan Iwan Sam Finnigan!

Llongyfarchiadau mawr i Greg Vearey-Roberts, Gemma Roberts, Beci Vearey-Roberts a Natalie Michelle Jones am hyfforddi a threfnu perfformiad mor ddifyr o fewn amserlen dynn. Diolchodd Greg i Osian Wyn am chwarae'r drymiau ac i staff yr Amgueddfa am ofalu bod popeth wedi mynd mor esmwyth ar gyfer y perfformiad.

Mae'n hyfryd bod cyfleoedd fel hyn ar gael i blant ifanc ein hardal, ac i'w rhieni a'u teuluoedd i fwynhau ffrwyth y llafur. Pob dymuniad da i'r Academi i'r dyfodol.

Sion Pennant

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Daeth Nadolig yn gynnar i ni, aelodau Merched y Wawr, yn Nhal-y-bont, nos Lun, 19 Tachwedd, pan ymwelodd Santa â ni yn ddirybudd yn y Neuadd. Roedd syndod i'w weld ar wyneb pob un wrth iddo gamu i'n mysg a'n cyfarch. Ond wedi iddo ddiosg ei wisg a'i farf fe welsom mai gwestai'r noson, sef Leyshon Mostyn, yr arwerthwr o Aberystwyth oedd yn tynnu coes.

Noson lawn hwyl a chwerthin gawsom ganddo wrth iddo adrodd hanes ei yrfa ac yntau'n byrlymu o storïau difyr. Esboniodd fel mae'r gwaith wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf gyda thechnoleg yn chwarae rhan bwysig erbyn hyn. Roedd wedi dod â chamera drôn i'w ddangos inni – teclyn sy'n hollwysig i dynnu lluniau o'r awyr i ddangos y tirlun o amgylch y tai sydd ar werth. Trefnwyd y noson gan Diana Jones ac Eryl Evans.

Eryl Evans

Cofio'r Rhai a Gollwyd

Roedd arwyddocâd arbennig i wasanaeth Sul y Cofio eleni wrth i drigolion Ceulanamaesawr ymgynnull yn y Neuadd Goffa ganrif yn union i'r eiliad y tawelwyd sŵn y gynnaau mawr.

Ers i'r eglwys gau yn Nhal-y-bont, y capeli lleol mewn cydweithrediad â'r Cyngor Cymuned, a swyddogion y Neuadd Goffa sydd wedi bod yn gyfrifol am drefniadau Sul y Cofio. Ailwampiwyd y gwasanaeth ychydig gan gadw'r elfennau arferol, ac am yr ail flwyddyn yn olynol llywiwyd y cyfan gan y Parchedig Richard Lewis, cyn-weinidog Bethel. Cyfeiriodd at aberth y rhai a gollwyd tra atgoffai'r gynulleidfa o'r angen i frwydro'n barhaol dros achos heddwch.

Darllenwyd darnau o'r ysgrythur gan Nest Jenkins a Janet Morgan, ac yn dilyn y Weithred Goffa darllenwyd enwau y rhai a gollwyd gan Ieuan Morgan. Am y tro cyntaf darllenwyd enwau dau filwr o Bont-goch a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Wrth i sain yr utgorn dawelu cafwyd dwy funud o dawelwch, ac yn dilyn adrodd y Cymhelliad gosodwyd torchau gan John Morgan ac Anthony Southgate. Cyfeiliwyd i'r emynau gan Nia Richards, a'r trwmpedwr oedd Harvey Hassan o Ynys-las.

Phil Davies

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703692
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS

www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BUDDSODDWR
IN PEOPLE | MEWN POBL

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760



RHAGFYR – BLODAU’R NADOLIG

Poinsettia

Dyma’r adeg pan fyddwn yn cael blodau lliwgar ar gyfer y tŷ, ac yn eu plith Poinsettia sydd erbyn hyn i’w cael â dail coch, pinc, gwyn neu wyrdd golau. Maen nhw’n blanhigion tymhorol sy’n anodd eu cadw ar ôl misoedd y gaeaf. Am eu bod yn dod o’r trofannau, mae gwres canolog yn eu sychu, hefyd mae’n gas ganddyn nhw ddrafft.

Syclamen

Mae dau fath o Syclamen, y rhai bach, sy’n tyfu yn y goedwig (llysiau’r ddidol) a’r rhai mwy (*Cyclamen persicum*) sy’n cael eu codi yn aml ar gyfer y farchnad Nadolig. Mae angen golau arnyn nhw ond nid haul cryf. Cadwch nhw’n llaith heb fod yn rhy wlyb.

Amaryllis

Dyma flodyn sydd ag arogl hyfryd; mae’n lliwgar ac yn hawdd i’w dyfu. Mae’n dechrau tyfu pan fo’r compost yn gynnes ac yn llaith. Os ydych yn ofalus ohono, gall flodeuo am flynyddoedd.

Cynghorion i gnoi cil arnynt

- Cadwch lyfryn bach i nodi beth a ble sydd wedi cael eu plannu yn yr ardd neu’r tŷ gwydr.
- Gwnewch yn siŵr bod yr offer iawn i gyd gennych cyn i chi fentro i waelod yr ardd.
- Gwasgarwch hadau pabi mewn cornel ddi-liw.
- Mae dail bysedd y cŵn yn denu tyfiant mewn planhigion gerllaw ac yn help i wrthsefyll clefydau.
- Nid yw ci a lawnt berffaith yn mynd gyda’i gilydd.
- Byddwch yn ddiolchgar am y glaw – mae cymaint o’i angen â’r haul (oni bai eich bod am gael barbeciw).
- Peidiwch â phlannu coed yn rhy agos i’r tŷ, ac yn sicr os ydych am gadw’ch cymdogion yn hapus, anghofiwch am blannu coed Leylandii!

(drwy garedigrwydd Llais Arduwyy)

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 M 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i’ch croesawu i’r Gwyn.

Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)
Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Buyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL



Blac

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

EISTEDDFOD CEREDIGION 2020

Pwyllgor Apêl Ariannol

Mae Pwyllgor Apêl Ariannol Lleol wedi'i sefydlu yng nghymunedau Gogledd Ceredigion i geisio cyrraedd y nod o £14,000 a osodwyd ar gyfer ardaloedd cynghorau cymuned Ysgubor-y-coed, Llangynfelyn a Cheulanamaesmawr. Cytunwyd y dylid cyfuno'r ymdrechion a chael un targed ar gyfer yr ardal gyfan yn hytrach na chael tri tharged gwahanol.



Mynychwyr y cyfarfod cyhoeddus

Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llan-fach, Tre'r-ddôl, etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd – Bethan Davies, Dolcletwr; Is-gadeirydd – Phil Davies, Tal-y-bont; Ysgrifennydd – Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont; Is-ysgrifennydd – Fal Jenkins, Tal-y-bont; Trysorydd – i'w ethol.

Gan fod cyfnod o 20 mis i godi arian a cheisio cyrraedd y targed lleol, bydd nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal i geisio tynnu cynifer o bobl â phosibl yn rhan o'r gwaith o baratoi at yr ŵyl fawr, gan gofio fod chwarter canrif ers i'r brifwyl gael ei chynnal yn y sir ddiwethaf. Y gobaith yw y bydd y paratodau ar gyfer yr Eisteddfod yn creu bwrlwm cymdeithasol fel bod modd mwynhau a chael hwyl wrth godi arian.

Eisoes mae rhai syniadau wedi eu crybwyll, ac os oes gan bobl syniadau ynghylch trefnu digwyddiadau penodol, mae croeso iddynt gysylltu â'r ysgrifennydd, Rhian Evans (rhian.evans@tiscali.co.uk).

Cyhoeddwyd yn y cyfarfod fod modd prynu bocsaidd o boteli gwin coch *Malbec* o Batagonia am £125 drwy gysylltu â Meinir Fleming (meinirfleming@hotmail.co.uk); am bob bocsa a werthir bydd cyfraniad o £25 yn mynd i'r Gronfa Apêl.

Cynllun 2020

Gofynnwyd i bobl ystyried ymuno â'r cynllun rhodd ariannol drwy gytuno i gyfrannu £20 y mis am gyfnod o ddwy flynedd, ac os byddant yn gwneud bydd cyfraniad yr unigolion hynny'n mynd tuag at gasgliad y Gronfa Apêl Leol. Dosberthir taflen rodd gyda'r rhifyn hwn o *Bapur Pawb*.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Apêl ar nos Fercher, 23 Ionawr, yng ngwaelod y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont am 7.00 o'r gloch, a bydd croeso cynnes i bawb sydd am helpu mewn unrhyw ddull a modd.

DATHLU CYMUNED

Prosiect yw **Dathlu Cymuned** sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol, hanesyddol a diwylliannol pentrefi Tre'r-ddôl a Thre Taliesin. Bydd yn rhoi'r cyfle i bobl i fynegi eu balchder yn eu cymuned drwy edrych ar beth sy'n arbennig a chofiadwy am y pentrefi hyn. Bwriedir cynnal diwrnod lansio **ddydd Sadwrn 2 Chwefror** yn Llan-fach yn Nhre Taliesin – digwyddiad na ddylech ei golli. Gallwn edrych ymlaen at arddangosfeydd a thrafodaeth â sefydliadau sy'n cydweithio yn y prosiect; sganio ffotograffau a dogfennau; sgysiau a pherfformiadau a'r cyfle i awgrymu syniadau ar gyfer y *Map Dathlu Cymuned*.



Fe orwedd y ddau bentref ar ganol ardal hynod ddiddorol, lle mae daeareg, yr amgylchedd naturiol a rheoli tir i gyd wedi cyfrannu at y rheswm am eu bodolaeth yn y lle cyntaf ac at barhad eu hanes a'u diwylliant. Bydd *Dathlu Cymuned* yn datgelu hanes rhai o'n hadeiladau a'r bobl sy'n gysylltiedig â nhw. Bydd yn edrych ar leoedd llai adnabyddus yn yr ardal gan dwrio am eu hanesion. Bydd yn edrych yn fanwl ar beth sy'n arbennig am Warchodfa Natur Cwm Cletwr ac ar y cysylltiadau â Chors Fochno, lle, hyd yn oed heddiw, mae darn bach yn dir comin. Trafodir enwau lleoedd a'u dehongli. Bydd manylion am y diwrnod yn cael eu cylchredeg ym mis Ionawr.

Yn ystod 2019, bydd aelodau o gymunedau'r pentrefi'n cael y cyfle i weithio mewn grwpiau bychain i wneud ymchwil ddogfennol, esbonio'r gorfennol a'r presennol mewn ffyrdd creadigol a helpu i grynhoi'r wybodaeth a ddefnyddir ar baneli a fydd yn cael eu gosod ar adeiladwaith y tu allan i'r Cletwr yn Nhre'r-ddôl. Dyma luniad pensaer o gynllun yr hyb.



Bydd y prosiect yn cynnwys pawb sydd â diddordeb ac sydd am gasglu a rhannu straeon a gwybodaeth. Does dim angen arbenigedd i gymryd rhan – dim ond brwdfrydedd.

Os oes gennych ddiddordeb, nodwch ddydd Sadwrn, 2 Chwefror, yn eich dyddiadur. Dewch i gwrdd â'n partneriaid sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Vincent, Treftadaeth Llangynfelyn, Cyfoeth Naturiol Cymru, Archifdy Ceredigion ac, wrth gwrs, y Cletwr ei hun. Mae'r prosiect hefyd yn cael ei gefnogi gan Gronfa Rhannu Treftadaeth y Loteri.

Am fwy o wybodaeth, cadwch lygad am y taflenni *Dathlu Cymuned* a fydd i'w gweld o gwmpas y lle dros y mis neu ddau nesaf neu anfon e-bost at Rose neu Shelagh (cc@cletwr.com).

LRJ

Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth

Llion Jenkins


07958 701861

lilionjens94@hotmail.co.uk

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235



Gwobrau arbennig

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau gartwnydd ifanc yma am ddod ymysg y goreuon yng nghystadlweddau creu anghenfil arswydus. Cafod y ddau eu canmol am eu gwaith yn fawr gan y cartwnydd enwog Huw Aaron. Diolch yn fawr i'r Lolfa ac i'r Cyngor Llyfrau am y gwobrau hael.



Ysgol Eco

Er gwaetha'r gwynt a'r glaw, cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 gryn dipyn o hwyl yn crwydro Coedwig Gogerddan yn dysgu am goed. Roedd y plant wrth eu boddau'n chwilio am arwyddion yr hydref ac yn ymchwilio i ddarganfod mwy am arferion trychfilod y goedwig.



Siarter Iaith

Yn ystod y mis, aeth plant Cyfnod Allweddol 2 ar wibdaith i ymuno â disgyblion Ysgol Craig yr Wylfa i wyllo sioe gan gwmni Mewn Cymeriad. Mae'r cwmni'n perfformio sioeau sy'n ymwewld ag ysgolion cynradd yn cyflwyno hanes Cymru gyda hwyl a chyffro. Diolch yn fawr i Llion Williams am ei berfformiad egniol a doniol wrth gyflwyno hanes yr iaith dros y blynyddoedd.

Ysgol Gymunedol

Staffio

Newyddion da! Llongyfarchiadau mawr i Miss Williams ar enedigaeth Lia Mair yn ystod y mis. Dymuniadau gorau ichi a chofiwch alw i'n gweld yn fuan.
Hoffwn estyn croeso cynnes i Sue Herron a Rhiannon Harrison fel athrawon yn yr ysgol. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yma yn ein cwmni



Rhyfel Byd Cyntaf

Fel rhan o ddiwyddiadau Llyfrgell Ceredigion i goffáu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd plant yr ysgol eu gwahodd i gyflwyniad arbennig yn Llyfrgell Aberystwyth. Diolch yn fawr iawn i Delyth Huws ac Emyr Lloyd am ein tywys trwy'r ffosydd heddiw ac am wneud y cyfnod mor fyw inni.



Ysgol greadigol

Mae hi bob amser yn bleser croesawu Ruth Jên i'r ysgol ac mae'r plant wrth eu boddau'n creu yn ei chwmni. Y tro yma, bu'r plant yn cynllunio a chreu baneri lliwgar a deniadol i hyrwyddo Siarter yr Iaith Gymraeg. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld y baneri'n hongian yn yr ysgol cyn hir.

Tal-y-bont

Academi Gerdd y Lli
Braf iawn oedd gweld dau o ddisgyblion yr ysgol yn perfformio yn sioe ddiweddar Academi Gerdd y Lli yn Amgueddfa Ceredigion yn Aberystwyth. Cafwyd llawer iawn o ganmoliaeth i safon y perfformiadau gan y gynulleidfa a fu yno. Llongyfarchiadau mawr i Caoimhe a Martha am eich perfformiadau arbennig a daliwch ati berfformio.



Goleuo Coed Nadolig y Neuadd Goffa
Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o bobl y gymuned yn dod i weld plant yr ysgol yn perfformio yn y Neuadd Goffa eleni eto. Hoffwn ddiolch yn fawr am wahoddiad y Cyngor Cymuned i gyflwyno'r eitemau a diolch yn fawr i'r staff am baratoi'r eitemau. Ond mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r plant am eu cyfraniadau amrywiol. Uchafbwynt y noson fel arfer oedd gweld Glain a Rhoswen, Llysgenhadon yr Ysgol, yn cynnau'r golau. Nadolig Llawen i bawb.



Ysgol Iach
Dyma rai o sêr mis Tachwedd yn cael eu gwobr am wneud rhywbeth da yn yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr ichi i gyd.

Cyngerdd Nadolig Cylch Meithrin Tal-y-bont



Nos Lun, 3 Rhagfyr, roedd Neuadd Goffa Tal-y-bont yn llawn bwrilwm wrth i blant bach yr ardal a'u teuluoedd, yn ogystal ag aelodau eraill o'r gymuned, ymgynnull ar gyfer yr achlysur hyfryd hwnnw, sef Cyngerdd Nadolig y Cylch Meithrin.
Roedd y llwyfan ei hun yn llawn, gyda nifer sylweddol iawn o blant rhwng 2 a 4 oed yn ein diddanu gyda'u caneuon Nadolig, a Rhian Glanrafon yn adrodd stori'r geni a Siwan Haf yn cyfeilio ar y piano. Oedd wir, roedd sglein ar y cynhyrchiad!

Cyflwynwyd y noson gan Lynwen Herbert-Morgan, Cadeirydd y Cylch, a diolchodd hi'n gynnes iawn i staff ymroddedig y Cylch am eu holl waith yn ystod y flwyddyn.
Yn ogystal â'r adloniant ar y llwyfan, roedd llond y lle o stondinau crefft – mwy nag erioed o'r blaen – ac felly dyma gyfle i brynu ambell anrheg Nadolig ac addurniadau ar gyfer yr Ŵyl. A chyfle hefyd am baned a mins pei hamddenol ymhlith cyfeillion.
Braf yw gallu nodi bod noson mor hwyliog a dymunol hefyd wedi bod yn fuddiol yn ariannol i'r Cylch, gan godi'n agos at £1,000 i'r coffrau. Mae digon o syniadau gan y staff a'r pwyllgor ynghylch sut i'w wario i adeiladu ymhellach ar y profiadau mae'r Cylch yn gallu cynnig i'r plant.
Diolch yn fawr iawn i bawb fu wrthi'n trefnu ac i bawb am ddod i ymuno yn yr hwyl.

Rebecca Williams



argraffu da
am bris da

yLolfa
holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfa.com

Dewch i Ddathlu'r Ŵyl! Gwasanaeth Carol a Channwyll Capel Saron, Llanbadarn	TAD BYTHOL Mab y Goruchaf GOLEUNI'R BYD
GWAREDWR nasaread MAB Y DYN Cynghorwr Rhyfeddol	Dydd Sul, Rhagfyr 16eg, 4.30yp Darperir lluniaeth ysgafn Croeso Cynnes i Bawb! www.eglwysefengylaiddaberystwyth.co.uk

Teulu o Redwyr



Leila gyda'i medal gyda Dominic ei thad

Mae un teulu o Dal-y-bont wedi bod yn brysur iawn yn cystadlu mewn rasys rhedeg yn ystod yr hydref. Fe redodd y ieuengaf ohonynt, Leila Jenkins, yr un a hanner milltir i gopa'r Graig Lais (Consti), Aberystwyth, ac yn ôl mewn 12 munud a 46 eiliad, gan ddod yn 11eg yn y ras.

Roedd ei thad, Dominic Jenkins, hefyd yn rasio i gopa'r Graig Lais ac wedi hynny i gopa Pen Dinas. Llwyddodd i ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth mewn amser o 48 munud 26 eiliad. Tipyn o gamp i'r ddau.

Roedd Dominic hefyd yn rhedeg mewn ras ddeg milltir yng Nghwm Elan ar 17 Tachwedd gan ddod yn ail mewn un awr a dwy eiliad yn unig. Hefyd yn rasio yr oedd mam-gu Leila, Denise Morgan, ei modryb Holly Aubrey, a ffrind i'r teulu Siwan Thomas. Llwyddasant i gwblhau'r ras mewn un awr a 46 eiliad.

CHWARAEON



Denise, Siwan a Holly yng Nghwm Elan

Hwyllo'r Chwedlau yn Sesiwn Nos Wener



Sioned Webb a Mair Tomos Ifans yn eu helpen yn y Llew Gwyn.

Y delynores Sioned Webb a'r ddiddanwraig ddawnus Mair Tomos Ifans oedd yn perfformio yn noson olaf Sesiwn Nos Wener am eleni. Yr hyn a gafwyd oedd sioe amrywiol yn adrodd rhai o chwedlau gwerin Morgannwg yn gymysg â chanu penillion telyn a chaneuon gwerin traddodiadol ar thema'r môr. Bu'r ddwy yn perfformio am awr a hanner solet, ac yr oedd y gynulleidfa'n gwerthfawrogi amrywiaeth y noson. Ar y diwedd cafodd pawb gyfle i forio canu rhai o ganeuon gwerin Meirionnydd. Roedd hon yn noson gartrefol ac yn ffordd braf o ymlacio ar ddiwedd wythnos waith.

Cyhoeddwyd y bydd Sesiwn Nos Wener yn noddï un o gystadlaethau cerddorol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Cytunwyd y byddai noddï cystadleuaeth yn yr adran Canu Gwerin yn addas iawn.

Y Gair Olaf



Rydych yn gyfarwydd â chân anfarwol Edith Piaf, *Je Ne Regrette Rien*. Mae'r gantores yn gwrthod difaru am unrhyw beth wnaeth hi yn ei bywyd, ond mae 'na fath arall, mwy diflas o ddifaru, sef difaru am y pethe *na* wnaethoch chi. Mae pob un ohonom yn cicio'n hunain weithiau am golli cyfle – oherwydd llwfrdra fel arfer.

Digwyddodd hyn i fi yn fuan iawn wedi dod i Dal-y-bont pan yrrais fy Ford Anglia Estate yn hwyr un noson i mewn i yrr o wartheg duon oedd yn crwydro ar draws y briffordd rhwng Tre'r Ddôl a Thaliesin. Lladdais ddwy o'r gwartheg a gallasen i fod wedi cael fy lladd fy hun petai cynn un ohonyn nhw wedi mynd trwy ffenest y car. Ces i dipyn o sioc ond o leia, meddyliais, byddai'r yswiriant yn talu am y niwed i'r car. Oni ddywedodd y plismon lleol bod ffensys y ffermwr yn yfflon, a'i fod yn torri'r Animals Act?

Ond pan alwodd y plismon yn ein tŷ ni ychydig wedyn, dywedodd, â wyneb hir, nad oedd gobaith mynd â'r ffermwr ymlaen gan ei fod yn gadeirydd y fainc ac, ar ben hynny, yn gyfrifol am briffyrdd ar y Cyngor Sir.

Gallasen i fod wedi gofyn cwestiwn neu ddau i'r plismon ynglŷn â'r gyfraith a chyfiawnder. Ond wnes i ddim. Collais fy *No Claim* – a mwy...

Peidiwch â gwneud fel y gwnes i. Safwch dros eich hawliau yn y flwyddyn newydd sy'n dod. Peidiwch â difaru am beidio gwneud pethau.

Robat Gruffudd

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard



10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674